

### **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Mae llywodraethu yn hynod o bwysig. Maen hynod o bwysig i bob sefydliad i sicrhau bod nhw'n rhedeg eu hunain yn y ffordd gorau posib. A dyw hynny ddim yn meddwl does dim problem. Wrth gwrs, mae yna broblem. Does dim un sefydliad lle nad oes rhywbeth gall gwella. Ond wrth wybod sut mae'r sefydliad yn rhedeg, beth sydd angen wneud i wella'r sefydliad, ni'n gwybod bod nhw'n llywodraethu'n dda ac felly gallwn ni cael mwy o hyder ynddyn nhw bod pethau yn rhedeg yn foddhaol o ddydd i ddydd.

### **Jessica Crowe, Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus**

Felly'r prif beth rwyf am ofyn i gynadledwyr a mynychwyr i fynd gyda nhw, yw pwysigrwydd myfyrio ar yr hyn a wnânt, ac roedd gen i 4 prif wers ar sail profiadau a ges i, y gwnes i gnoi cil drostynt a sylweddoli eu bod yn bwysig i lywodraethu da. A phwysigrwydd bod yn ddewr oedd hynny - yn ddewr o safbwynt moesol a gwleidyddol. Pwysigrwydd arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol yw sicrhau bod gan sefydliad y diwylliant iawn i lywodraethu'n dda. Pwysigrwydd sicrhau bod her a chraffu ar sail tystiolaeth ar gael i chi, pwysigrwydd mynd i'r afael go iawn â diwylliant sy'n dweud bod y 'realpolitik' yn iawn a bod lle i sinigiaeth. Mae angen i ni roi ychydig o bwrpas moesol yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Credaf fod y 4 pwynt hynny gyda'i gilydd yn golygu meddwl am eich diwylliant fel sefydliad a sut rydych chi'n gwneud penderfyniadau.

Rwy'n meddwl bod rhai'n gweld diwylliant fel rhywbeth meddal ac annelwig ac ychydig yn anniriaethol, fel hoelio uwd at wal. Ond fyddwn i'n dadlau ei fod a wnelo â sut rydyn ni'n cyflawni ein gwaith. Felly mae'n ymwneud â sut rydych chi'n cyflawni'ch gwaith, beth yw'r ymddygiad sy'n dderbyniol gennych, sut mae'ch arweinwyr yn ymddwyn, sut mae pobl yn ymwneud â chwsmeriaid ar y rheng flaen. Felly mae'n treiddio i bob rhan o'r sefydliad, ac mae'n ymwneud â'r straeon y mae'n eu hadrodd am ei hun, y delweddau, yr hunan ddelwedd, sut rydym ni'n mynd o'i chwmpas hi yn y sefydliad hwn.

### **Claer Lloyd-Jones, Claer Lloyd-Jones Ltd.**

Mae fy nghyflwyniad i'n canolbwyntio ar ddefnyddio moeseg fel ffordd o benderfynu a yw contractwyr - boed yn gontractwyr sector cyhoeddus eraill neu'n gontractwyr sector preifat - yn cyflenwi'r gwasanaethau mewn ffordd sy'n driw i'ch gwerthoedd, a bod eu hymddygiad fel y buasech yn ei ddisgwyl gan staff pe baent yn darparu'r gwasanaethau hynny. Yr un neges allweddol yr hoffwn i bobl fynd â hi gyda nhw yw na allwch chi gael llywodraethu da heb foeseg da.

### **Rebecca David Knight, Canolfan Craffu Cyhoeddus Cymru**

Mae fy nghyflwyniad i'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o rolau gwahanol o fewn sefydliadau. Felly mae'n ymwneud â nodi amrywiol liferi pŵer aelodau gweithredol, aelodau anweithredol a sut y daw hyn ynghyd i wella sut y llywodraethir y sefydliad yn gyffredinol.

Yr un neges allweddol yr hoffwn i'r mynychwyr fynd â hi gyda nhw yw sut i wneud y defnydd gorau o'u pŵer personol yn ogystal â phŵer eu swyddi. Felly mae'n ymwneud â chael y dewrder i herio lawn cymaint ag y mae am y ffordd maen nhw'n mynd ati i lywodraethu. Ei weld fel arf busnes sy'n helpu i gyflawni amcanion sefydliad, ac nid fel rhywbeth mae pobl yn ofni ei wneud, neu'n credu ei fod yn anghwrtais. Rhaid ei wneud e a bwrw iddi.

### **David Richards, Llywodraeth Cymru**

Wel, yr hyn rydyn ni wedi ei weld yn Llywodraeth Cymru yw ein bod ni'n dechrau gyda'r bwriadau gorau o safbwynt gwerthoedd cywir ein gwasanaethau cyhoeddus a gwneud popeth yn iawn ac yn gywir, a bod pethau'n dod ar ein traws. Mae yna bwysau amser, pobl nad ydyn nhw'n gwybod beth y dylen nhw ei wneud, ac weithiau pobl sy'n gwybod beth y dylen nhw fod yn ei wneud ond nad ydyn nhw'n ei wneud e. Ac mae yna fwganod, sy'n eich baglu chi. A'r peth pwysig yw nodi'r bwystfilod a'r bwganod sy'n dod ar ein traws, eu clirio nhw mas o'r ffordd, fel y gallwn ni fwrw ymlaen gyda'r gwaith pwysig o wasanaethu pobl Cymru.

Mae llywodraethu yn debyg i fynd ar ddiet. Gallwch fynd i mewn i WH Smith a phrynu llwyth o lyfrau ar ddiet, ond dydych chi ddim yn colli pwysau drwy fynd i WH Smith a phrynu llyfr, nid dyna'r ateb. Mae theori mynd ar ddiet yn hawdd, yr hyn sy'n anodd yw cymhwyso'r theori a dal ati. Ac mae llywodraethu'n ddigon tebyg. Dyw'r theori ddim yn anodd, ac mae pob math o fframweithiau llywodraethu, ac maen nhw i gyd yn dda ac yn ddefnyddiol. Ond y peth anodd, a'r her a'r wobwr wrth gymhwyso'r cyfan, yw ei wneud i weithio, ei ddefnyddio bob dydd, glynu ato. Ond pan rydych chi'n gwneud hynny, rydych chi ar eich ennill oherwydd rydych chi'n cyflawni eich amcanion, rydych chi'n driw i'ch gwerthoedd.

### **Omer Tauqir, Grant Thornton**

Y prif nod yw helpu aelodau pwyllgorau craffu ac archwilio i ddeall sut y gallant gael y sicrwydd sy'n wirioneddol hanfodol i'r sefydliad a hynny gan y ffynhonnell orau, mewn ffordd glir iawn a threfnus, yn hytrach na derbyn gwybodaeth sicrwydd fel ag y daw gan ffynonellau nad ydynt yn deall yn llawn ac na allant uniaethu â'r darlun cyflawn.

### **Gary Devlin, Grant Thornton**

Y neges allweddol yr hoffwn i gynadledwyr fynd gyda nhw o'm gweithdy yw nad yw bod â systemau a phrosesau ar waith i reoli risg yn ddigon. Y peth pwysicaf yw cael y diwylliannau a'r ymddygiadau yn eich sefydliad i fedru canolbwyntio ar y meysydd iawn a gyrru'r newid perfformiad hwnnw yn eich sefydliad.

Felly, enghraifft o'r diwylliannau a'r ymddygiadau sydd gennyf mewn golwg yw sefydliadau sy'n credu eu bod yn wych neu sy'n credu bod ganddynt lywodraethu da neu sy'n credu bod ganddynt reolaeth risg dda. Ond nid yw credu hynny o reidrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth. A phan rydych chi'n dadansoddi'r tybiaethau sy'n arwain at y gred honno, gallwch yn aml weld nad yw'r gred mewn gwirionedd ar sail gadarn iawn ac nad yw'n gyrru diwylliannau ac ymddygiadau fel bod y sefydliad yn rhoi sylw i'r meysydd cywir ac nad yw'n goddef gweithredoedd amhriodol pan nad yw'n ymddwyn mewn ffordd briodol a chyfrifol. Dyna'r diwylliannau a'r ymddygiadau cywir i fod yn ddiflino amdanynt yn eich sefydliad.